**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our Ref: RE/178/2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Mehefin 2023

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y byddaf yn cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 22 Mehefin yng Nghaerdydd.

Dyma'r tro cyntaf y bydd Shona Robison MSP, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid newydd, yn ymuno â ni yng nghyfarfod y Pwyllgor, ac rwy'n edrych ymlaen at ei chroesawu.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ddiogelwch ynni, gan ystyried y mater hwn drwy lens economaidd a chyllidol. Byddwn yn trafod ynni adnewyddadwy, gan gynnwys seilwaith y grid a sut y gellid sicrhau bod y gost o drosglwyddo i ynni gwyrddach yn cael ei chymdeithasoli a'i dyrannu mewn modd teg, fel nad yw'r dinasyddion tlotaf yn ein cymunedau yn wynebu'r cynnydd cymharol mwyaf yn y costau y maent yn eu talu. Byddaf yn tynnu sylw at brosiectau arloesol yng Nghymru, ac yn amlinellu'r meysydd lle mae angen buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, gan drafod y cyfleoedd o ran swyddi a gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi.

Hefyd, byddwn yn trafod eitem ar y pwysau ar wariant cyhoeddus a'r rhagolygon economaidd, a fydd yn cynnwys targed Prif Weinidog y DU i haneru chwyddiant, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddarparu cymorth costau byw. Bydd ffocws ar ariannu'r GIG, a byddaf hefyd yn ceisio eglurder o ran sut y mae dyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu yn Lloegr, ac a fydd hynny'n arwain at gyllid canlyniadol ar gyfer Cymru. Hefyd bydd trafodaeth ar bwysau sy'n ymwneud â chyllid cyfalaf a hyblygrwydd cyllidebol.

Rhoddir diweddariad ar y cyllid sydd yn lle cyllid yr UE; gwybodaeth am hynt y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf; ac oherwydd bod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid wedi bod yn weithredol ers dros flwyddyn, byddwn yn trafod y cynlluniau i gynnal adolygiad o'i gylch gorchwyl a'i drefniadau gweithredu.

Yn olaf, rwyf wedi gwneud cais am gynnal cyfarfod dwyochrog gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ochr yn ochr â'r Pwyllgor i drafod y pwysau ar wariant a'r rhagolygon economaidd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sy’n benodol i Gymru, yn ogystal a chadernid yn wyneb newid hinsawdd, gyda ffocws ar gefnogi cymunedau diwydiannol.

Byddaf yn adrodd i’r Pwyllgor ar ganlyniadau’r cyfarfod hwnnw.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government